# Cyngor Cymuned Glantwymyn
**Nôs Wener, 28ain Mawrth 2014.**

**Presennol. Mri:-** Dafydd Evans, A. O. Griffiths, H.D.Jones, D. Lewis, S.G.Owen, W.N.Owen, T.J.Thomas, G.Wigley, Mrs Gwenfair Davies a'r Cyng. G.P.Fychan.

**Ymddiheuriadau.** Mri:- D.G.Jones, J.P.Jones, H.M.Williams, Mrs Gwen Lloyd a Mrs Ann Williams,

Neilltuwyd y rhan helaethaf o'r cyfarfod i Mr Peter Skitt o'r Adran Iechyd a chroesawyd ef ynghyd â naw cynghorydd o gynghorau cyfagos i'r cyfarfod gan y cadeirydd Mr Bill Owen. Dechreuodd Mr Skitt trwy amlinellu'r problemau sy'n wynebu'r Adran Iechyd o ganlyniad i'r toriadau sylweddol yn y gyllideb. Dywedodd hefyd ei fod yn newid swydd yn fuan gan ganolbwyntio ar yr adran o fewn Hywel Dda yng Ngheredigion yn y dyfodol. Mae £30 miliwn wedi ei wario i wella'r adnoddau ym Mronglais ond mae'n rhaid derbyn bod arbenigedd i'w gael mewn ysbytai ymhellach oddi wrth y canolbarth, lle mae'r boblogaeth yn fwy ac nad yw'n gynaliadwy cael y driniaeth arbenigol yn lleol. Awgrymwyd iddo'r posibilrwydd o gludo'r ymgynghorwyr proffesiynol i Fronglais o ysbytai eraill yn hytrach na chludo'r cleifion mor bell o'u cynefin. Roedd yn derbyn hefyd y gallasai canoli'r gwasanaethau mewn ysbytai mwy o faint arwain at heintiau a chlefydau. Trafodwyd y gwasanaeth ambiwlans ac anogodd Mr Skitt ar i'r cyhoedd gysylltu efo Heather Ranson ar 01745532900 os oes cwyn yn erbyn y gwasanaeth ambiwlans yn lleol. Eglurwyd fod cleifion sy'n mynychu'r feddygfa yng Nglantwymyn yn gorfod aros yn hirach i weld meddyg o ganlyniad i'r nifer o gleifion sydd wedi symud o feddygfa Machynlleth. Roedd Mr Skitt yn credu y byddai problemau Machynlleth yn cael eu datrys yn fuan. Gan fod y triniaethau arbenigol yn mynd yn bellach o'n cyrraedd a'r ddibyniaeth ar y gwasanaeth ambiwlans awyr yn dwysau, roedd ef yn ffyddiog y byddai ariannu'r gwasanaeth hwnnw am 24 awr bob dydd yn cael ei rannu rhwng yr Awdurdod Iechyd a'r sefydliadau gwirfoddol. Cafwyd atebion buddiol ganddo - ddim pob un yn dderbyniol, ond roedd yn barod i wrando a gobeithio y bydd rhai o'r awgrymiadau yn cael sylw pellach.
Diolchwyd iddo am ei gyfraniad a gofynnwyd i gynghorwyr Glantwymyn aros i barhau efo materion y Cyngor.

**97. Cofnodion cyfarfod 28ain Chwefror 2014.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**98. Materion yn codi o'r cofnodion.**
96.1 Darllenwyd amcan bris Mr Glenn Ward i ofalu am y mynwentydd am 2014. Gan mai wythnos yn unig sydd er pan mae'r Blewyn Glas allan, pasiwyd gadael am bythefnos gan obeithio y derbynnir cais arall. Y cadeirydd a'r clerc i wneud penderfyniad wedyn.

**99. Cynllunio.**
P/2014/0261. Codi ychwanegiad un llawr i Bryngoronwy, Llanwrin yn lle'r *conservatory* presennol. Cytuno.

**100. Eitemau i'w talu.**
100.1 Cyflog tri mis y clerc £673 a chostau £46.18. £719.18
100.2 Hysbyseb yn y Blewyn Glas. £10
100.3 Derryck Lewis am atgyweirio rhai meinciau, prynu paent a phaentio'r meinciau i gyd. £170. Nid oedd Gareth Owen am godi tâl gan nad oedd yn teimlo iddo gyfrannu digon o amser i'r prosiect.
Gadawodd Derryck a Gareth yr ystafell tra oedd y mater yn cael ei drafod.

**101. Cais am arian.**
Trosglwyddwyd un cais i gronfa'r Melinau Gwynt.

**102. Gohebiaeth.**
102.1 Cynhelir Rali Gogledd Cymru yng nghoedwig Dyfi ar y 5ed Ebrill.
102.2 Llythyr yn hysbysu fod Ann Williams yn ymddeol o fod yn bostfeistres yng Nghwmlline cyn diwedd Ebrill ar ôl 32 o flynyddoedd. Nid oes cais wedi ei dderbyn am olynydd i Ann hyd yn hyn.
102.3 Cais am rai i gefnogi cwrs hyfforddi yn Llety'r Parc Aberystwyth ar y 4ydd Ebrill.
102.4 Derbyniwyd llythyr trwy law clerc Cyngor Tref Machynlleth oddi wrth wraig o Northampton a oedd yn gwneud apêl am ddymchwel y tŷ yng Ngheinws lle yr honnir y llofruddiwyd April Jones ac i'r cyngor lleol ad-dalu'r perchennog. Gan mai i Gyngor Machynlleth yr anfonwyd y cais nid oedd angen ateb y llythyr. Y farn oedd pe bai llythyr o'r fath yn dod i Gyngor Glantwymyn yn y dyfodol, nid oes cyllid gan y cyngor na'r hawl i orfodi dymchwel yr adeilad.

**103. Unrhyw fater arall.**
103.1 Mae peth gwelliannau wedi eu gwneud i ffordd Llanwrin.
103.2 Nid oes ymateb wedi ei dderbyn i roi tarmac ar y llwybr sy'n arwain at Eglwys Darowen hyd yn hyn. Gan fod gosod ramp ar gyfer yr anabl wrth y fynedfa i'r Eglwys o dan ystyriaeth, byddai yn fuddiol cyplysu'r ddau brosiect.
103.3 Derbyniwyd llythyr oddi wrth gadeirydd llywodraethwyr Ysgol Glantwymyn yn diolch am ddangos diddordeb yn niogelwch y plant ger y fynedfa i safle'r ysgol a'u bod â diddordeb i gyfarfod a gwrando ar syniadau'r cynghorydd Dafydd Evans. Dangosodd Aled Griffiths ddiddordeb yn y mater dan sylw.
Yn y llythyr hefyd roedd cais am gymorth ariannol tuag at Ysgol Glantwymyn. Roedd yr aelodau yn cefnogi mewn egwyddor ond cytunwyd na ellir gwneud penderfyniad heb fwy o fanylion. Addawodd Aled gario'r genadwri i'r llywodraethwyr.

Nid oedd mater arall

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 25ain Ebrill 2014.**